# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 5

PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GYDSYNIAD SEILWAITH

*Polisïau statudol a materion perthnasol eraill*

### 56 Penderfynu ar geisiadau: ystyriaethau cyffredinol

(1) Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd)—

(a) rhoi sylw i—

(i) unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n cael effaith mewn perthynas â'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef ("datganiad polisi perthnasol"),

(ii) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,

(iii) unrhyw gynllun morol (o fewn yr ystyr a roddir i "marine plan" yn adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)) sydd wedi ei lunio a'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a

(b) gwneud eu penderfyniad neu ei benderfyniad (yn ôl y digwydd) yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun, oni fo ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

(2) Nid yw'r ffaith bod unrhyw ddatganiad polisi perthnasol, fframwaith neu gynllun yn nodi bod lleoliad yn addas (neu y gallai fod yn addas) ar gyfer math penodol o ddatblygiad yn rhwystro Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) rhag penderfynu ar gais ac eithrio yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun os yw ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.